# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 1 Tachwedd 2016

Amser: 09.00 - 10.18

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3769

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mike Hedges AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Neil McEvoy AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 283KB) Gweld fel HTML 71KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-05-714 Cynnwys Gorsaf ar Gyfer Mynachdy a Thal-y-bont fel Rhan o Unrhyw Gynnig ar Gyfer Metro Caerdydd

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i aros am farn y deisebydd ar ymateb y Llywodraeth cyn penderfynu sut i fwrw ymlaen â'r ddeiseb.

### 2.2 P-05-716 Cludiant am Ddim ar y Trenau i Ddisgyblion Ysgol gyda Threnau Arriva Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Arriva Trains Wales i'w gwneud yn ymwybodol o'r ddeiseb a gofyn am eu barn ar y materion a nodwyd, gan gynnwys pryder y deisebydd ynghylch diogelwch ar y platfform yng ngorsaf Treorci.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-05-691 Bargen Deg ar gyfer Ralïo mewn Coedwigoedd yng Nghymru

Datganodd Janet Finch-Saunders y buddiant perthnasol canlynol o dan Reol Sefydlog 17.24A:

- Mae hi o blaid y ddeiseb ac wedi ei llofnodi.

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y deisebydd a Cyfoeth Naturiol Cymru a chytunodd i longyfarch y deisebwyr ar ganlyniad llwyddiannus eu hymgyrch a chau'r ddeiseb.

### 3.2 P-04-687 Adolygiad o Bysgota Cregyn Bylchog ym Mae Ceredigion

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, a chytunodd i ofyn am farn y deisebydd ar y datganiad cyn penderfynu sut i fwrw ymlaen â'r ddeiseb.

### 3.3 P-04-485 Camddefnyddio contractau dros dro yn y sector Addysg Bellach

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i roi copi i'r deisebydd o'r canllawiau diweddaraf ar ddefnyddio trefniadau oriau nas warentir a gofyn am ei barn ar hyn.

### 3.4 P-676 Creu Pencampwr yr Iaith Gymraeg mewn Cymunedau yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes i ofyn am ei farn ar gydnabyddiaeth y Prif Weinidog o'r potensial i gynghorau cymuned a thref ystyried penodi pencampwr y Gymraeg.

### 3.5 P-05-694 Amseroedd Ysgol Awr yn Hwyrach

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i aros am farn y deisebydd cyn penderfynu a ddylid cymryd camau pellach.

### 3.6 P-04-674 Dyfed, Dim Diolch

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i longyfarch y deisebwyr ar ganlyniad llwyddiannus eu hymgyrch a chau'r ddeiseb.

### 3.7 P-04-681 Caniatáu i'r Cyhoedd Recordio Cyfarfodydd Llywodraeth Leol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet i ofyn a yw'n bwriadu datblygu y ddarpariaeth a gynlluniwyd yn flaenorol i'w gwneud yn orfodol i Awdurdodau Lleol ddarlledu cyfarfodydd ac, os felly, sut.

### 3.8 P-04-539 Achub Cyfnewidfa Glo

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i aros am ganlyniad y Ceisiadau sydd gyda Cadw ar hyn o bryd a chynllun cadwraeth y datblygwr, a barn y deisebydd ar ôl hynny, cyn penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau pellach.

### 3.9 P-04-664 Datblygwch Fferm Tynton yn Ganolfan Ymwelwyr a Gwybodaeth

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb ac, o ystyried barn y deisebydd bod y cyfle i gyflawni nod y ddeiseb wedi'i golli, cytunwyd i gau'r ddeiseb gan ddiolch i'r deisebydd am gymryd rhan yn y broses ddeisebu.

### 3.10 P-05-698 Ailenwi Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn Maes Awyr Rhyngwladol y Dywysoges Diana

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb, gan fod Maes Awyr Caerdydd wedi datgan yn glir mai eu cyngor i Lywodraeth Cymru yw cadw enw Maes Awyr Caerdydd.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Adolygiad o'r System ddeisebau Cymru y Cynulliad Cenedlaethol

Trafododd y Pwyllgor argymhellion Adolygiad System Ddeisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.